

# Cais i gymeradwyo manylion sydd wedi'u cadw'n ôl gan amod

*Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*

*Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990*

## 1. Manylion yr ymgeisydd

Nodwch fanylion yr ymgeisydd gan gynnwys teitl ac enw llawn. Nodwch rif a/neu enw'r tŷ/fflat (os yw hynny'n berthnasol) ynghyd ag enw'r stryd yn y maes Cyfeiriad stryd. Dylid nodi'r dref, y sir, y wlad a'r côd post llawn hefyd.

Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan asiant (h.y. rhywun sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd), bydd pob gohebiaeth yn cael ei hanfon at yr asiant, gan gynnwys y llythyr penderfyniad.

## 2. Manylion yr asiant

Nodwch fanylion yr asiant gan gynnwys teitl ac enw llawn. Nodwch rif a/neu enw'r tŷ/fflat (os yw hynny'n berthnasol) ynghyd ag enw'r stryd yn y maes Cyfeiriad stryd. Dylid nodi'r dref, y sir, y wlad a'r côd post llawn hefyd.

Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan asiant (h.y. rhywun sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd), bydd pob gohebiaeth yn cael ei hanfon at yr asiant, gan gynnwys y llythyr penderfyniad.

## 3. Cyfeiriad y safle

Nodwch yr un cyfeiriad safle a geir ar yr hysbysiad o benderfyniad, yn ogystal â chod post llawn neu gyfeirnod grid.

## 4. Cyngor cyn cyflwyno cais

Efallai y bydd yr awdurdod lleol yn barod i gynnal trafodaethau (y gellid codi tâl amdanynt) cyn i ymgeisydd gyflwyno cais swyddogol, er mwyn arwain yr ymgeisydd trwy'r broses. Gall hynny leihau achosion o oedi yn nes ymlaen wrth brosesu'r cais.

Yn ogystal, gall trafodaethau cyn cyflwyno cais eich helpu chi a'r awdurdod cynllunio i adnabod agweddau ar eich datblygiad arfaethedig sy'n achosi pryder, fel bod modd i chi ystyried gwneud newidiadau cyn cyflwyno'r cais. Caiff y cyngor a'r arweiniad a gynigir i chi yn ystod y cyfnod hwn eu rhoi'n ddiwyll. Fodd bynnag, nid ydynt yn cyfateb i warant neu addewid pendant y bydd eich cais yn cael ei dderbyn.

*...parhad ar y dudalen nesaf...*

Os ydych wedi cael cyngor gan y gwasanaeth cynllunio cyn cyflwyno'r cais, nodwch gyfeirnod/dyddiad unrhyw ohebiaeth neu drafodaeth ynghyd ag enw'r swyddog. Os nad ydych yn gwybod y manylion, nodwch '*Ddim yn gwybod*'.

Bydd hynny'n helpu'r cyngor i ddelio â'ch cais cyn gynted ag sy'n bosibl.

## 5. Disgrifiad o'r cais

Disgrifiwch y datblygiad neu'r gwaith, fel y cafodd ei nodi yn y llythyr penderfyniad gwreiddiol, a nodwch yn glir gyfeirnod y caniatâd a'r amod yr ydych yn dymuno ei fodloni, ei ddileu neu'i amrywio. Mae'n hanfodol eich bod yn nodi rhif pob un o'r amodau y mae'r cais hwn yn ymwneud â nhw, a'ch bod yn nodi disgrifiad o bob un ohonynt fel na fydd unrhyw ddryswch yn codi.

## 6. Bodloni amod(au)

Dylech nodi'n glir y deunyddiau/manylion a gyflwynir i'w cymeradwyo. Mewn rhai amgylchiadau (e.e. wrth geisio cael cymeradwyaeth ar gyfer nifer fawr o ddeunyddiau), efallai y byddai'n briodol cyflwyno samplau unigol (neu ddangos y samplau gyda'i gilydd ar fwrdd samplau).

## 7. Bodloni amod(au) yn rhannol

Os yw'r manylion a gyflwynir yn bodloni rhan o amod yn unig, dylid nodi hynny'n glir a disgrifio'r rhan y mae'r cais yn ymwneud â hi.

## 8. Gofynion cais am ganiatâd cynllunio a gofynion lleol

Ceir gofynion ar ddwy lefel – gofynion cenedlaethol a gofynion lleol:

- **Cenedlaethol** – Defnyddiwch y rhestr wirio i sicrhau bod y ffurflenni wedi'u llenwi'n gywir a bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno.
- **Lleol** – Bydd yr awdurdod cynllunio lleol wedi cynhyrchu dogfen (a fydd ar gael fel arfer ar ei wefan) sy'n nodi unrhyw wybodaeth benodol, yn ychwanegol at y gofynion cenedlaethol, y bydd angen ei chyflwyno gyda'r cais.

Gallai methu llenwi'r ffurflen yn gywir neu fethu darparu lluniadau digon manwl neu wybodaeth ategol berthnasol arall olygu bod eich cais yn cael ei anfon yn ôl atoch am ei fod yn annilys.

## 9. Datganiad

Llofnodwch eich cais a nodwch y dyddiad arno.

## **10. Manylion cyswllt yr ymgeisydd**

Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer yr ymgeisydd.

## **11. Manylion cyswllt yr asiant**

Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer yr asiant.

## **12. Ymweld â'r safle**

Efallai y bydd y swyddog achos yn gofyn am gael mynd i mewn i'r safle (h.y. y safle lle bydd y gwaith arfaethedig yn cael ei wneud). Darparwch fanylion cyswllt rhag ofn y bydd angen gwneud apwyntiad. Bydd hynny'n helpu'r cyngor i ddelio â'ch cais cyn gynted ag sy'n bosibl.